

Economi neu amgylchedd? Y ddau!

Mae trachwant a dyled yn sigo cymunedau, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones...

MAE diffiniad Llywodraeth ein Cynulliad o Ddatblygiad Cynaliadwy yn deillio o gytundeb yr hen glymblaid - Cymru'n Un. Dyma fo:

Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobol a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:

- mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;

- mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau

- gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.



Ein Senedd yng Nghaerdydd — yn arloesi gyda Datganiad Datblygu Cynaliadwy Cymru

Llun: YPG

Er gwaetha' rhinweddau amlwg y datganiad uchelgeisiol yna a'r amcanion sy'n cael eu hamlinellu, mae'r geiriau'n codi sawl cwestiwn ac anodd yw eu troi'n realiti.

Mae arwyddocâd amlwg i'r cymal am ddefnyddio ein 'cyfran deg' o adnoddau'r byd.

Er bod lle i boeni am sawl agwedd ar ein hetifeddiaeth naturiol, mae'r effaith tŷ gwydr yn amlycach na dim - anallu ein planed i wrthsefyll ac ymdopi â'r CO₂ a'r nwyon tŷ gwydr eraill sy'n cael eu gollwng.

Yn y cyswllt hwnnw, rydan ni yng Nghymru yn defnyddio llawer mwy na'n cyfran deg - yn fras iawn 17 tunnell y pen o'i gymharu â 7 tunnell yn fyd-eang.

Yn anffodus, mae'r lefelau byd-eang hefyd yn llawer rhy uchel. Nod y Llywodraeth yw torri'r allyrion sydd o dan eu hawdurdod o 3% y flwyddyn - sef tua 80% erbyn canol y ganrif. Ond mae tystiolaeth yr Arctig yn awgrymu bod hyn, hyd yn oed, yn rhy fychan ac yn rhy hwyr.

Ffordd arall o feddwl am y broblem yw dweud ein bod ni, Gymry, yn defnyddio adnoddau fel pe baen ni'n byw ar dair Daear, nid un. Hyn, er ein bod yn gymharol dlawd ar lefel Ewropeaidd ac er nad ydan ni ddim yn teimlo'n gyfoethog.

RHEOLAETH Y FARCHNAD — HEB YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD

Cri gyson ein gwleidyddion yw am dwf economaidd i greu swyddi a chodi GDP – holl gynnyrch yr economi - er ei fod wedi'i gydnabod nad yw GDP yn fesur da o les unigolyn na chymunedau ac yn anwybyddu elfennau fel llygredd.

Yr honiad yw mai'r unig achubiaeth yw bod yn fwy cystadleuol, gweithio'n fwy hyblyg a derbyn rheolaeth haearnidd y farchnad. Dan yr amgylchiadau, lle mae'r ymrwymiad i gynaliadwyedd?

Yn fy marn i, calon y paradocs yw ein cyfundrefn economaidd sydd wedi cyfoethogi'r ychydig gan adael trwch y poblogaeth bron ddim gwell eu byd nag yn y saithdegau.

Dywed John Maynard Keynes ein bod wedi cytuno (heb yn wybod i'r mwyafrif) i fargen Ffawstaid gyda 'thrachwant' gan obeithio gwella'n hystâd faterol a manteisio ar y briwsion o fwrdd trymlwythog y cyfoethog.

(Mae'n debyg fod gan tua 70,000 o'r tra-cyfoethog dros \$21 triliwn yn saff mewn hafanau di-dreth fel Ynysoedd y Cayman a, tan yn diweddar, Cyprus.) Er gwaetha' llwyddiant rhyfeddol y 'fargen' am dri chan mlynedd, mae pethau'n simsanu.

Mae cyfuniad o drachwant a dyled wedi tanseilio'n ffydd yn y fargen ac wedi sigo ein cymunedau. Ac mae effeithiau yr un gyfundrefn ar ein hinsawdd wedi dod yn frawychus o amlwg.

Felly nid opsiwn, ond rheidwydd, yw dilyn cwrs newydd, cwrs cynaliadwyedd.

[Ebrill 25, 2013]